# Cofnodion Cyfarfod Fforwm Rhieni

**Dyddiad:** 17 Mawrth 2026

**Amser:** 17:30

**Lleoliad:** Ysgol Dyffryn Conwy

## 1. Croeso ac Adolygiad o Gofnodion Blaenorol

Croesawodd y Pennaeth bawb i'r cyfarfod. Cadarnhawyd bod yr holl bwyntiau gweithredu o gyfarfod 21 Hydref 2025 wedi eu cwblhau a bod y newidiadau perthnasol bellach yn eu lle.

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
  - Adolygwyd y cynnydd ar y blaenoriaethau (Parch, Presenoldeb, Pedagogeg a Tîm YDC) .
  - Cadarnhawyd bod manylion cyswllt e-bost ar gyfer staff allweddol wedi eu rhannu drwy'r Cylchlythyr.
  - Mae sylwadau personol gan diwtoriaid dosbarth a chyflwyniad gan y Pennaeth bellach yn rhan o fformat yr adroddiadau ysgol.

## 2. Adroddiad Interim yr Ysgol aIonawr 2026 (ESTYN)

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
  - Trafodwyd fformat yr adroddiad interim sydd ar ffurf llythyr  sy'n egluro'r darganfyddiadau.
  - Nodwyd bod y llythyr wedi ei rannu yn eang drwy Cylchlythyr Rhannu a cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Mae y llythyr hefyd ar wefan swyddogol Estyn.
- **Pwyntiau Gweithredu:**
  - Casglu unrhyw adborth pellach gan rieni a llywodraethwyr ar gynnwys y llythyr

## 3. Newidiadau i'r Adroddiadau Llawn

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
  - Gofynnwyd am farn y rhieni ar y diwygiadau i'r adroddiadau llawn, yn benodol yr adran sylwadau personol ar y dechrau.
  - Mynegodd rhieni fod y strwythur newydd yn teimlo'n fwy personol ac yn adlewyrchu cyflawniadau'r disgybl fel unigolyn.
- **Pwyntiau Gweithredu:**
  - Parhau i fonitro ansawdd y sylwadau personol i sicrhau cysondeb ar draws pob blwyddyn ysgol.

## 4. Cyfathrebu: Ebyst Arweinwyr Cynnydd

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
  - Atgoffwyd y rhieni bod cyfeiriadau e-bost yr Arweinwyr Cynnydd bellach yn ymddangos ymhob cylchlythyr er mwyn hwyluso cyfathrebu.
- **Pwyntiau Gweithredu:**

- Sicrhau bod y rhestr gyswllt hon yn cael ei diweddaru’n syth os bydd unrhyw newidiadau mewn staffio.

## 5. Cylchlythyr 'Rhannu'

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
    - Trafodwyd cynnwys y cylchlythyr 'Rhannu' diweddaraf.
    - Anogwyd rhieni i barhau i anfon straeon llwyddiant o'r tu allan i'r ysgol i gael eu cynnwys yn y cylchlythyr arferol
- **Pwyntiau Gweithredu:**
    - Creu adran benodol yn y cylchlythyr Rhannu nesaf ar gyfer cofnodion y fforwm rhieni a hyrwyddo’r fforwm.

## 6. Ardal Fwyta a Sodexo

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
    - Cafwyd trafodaeth am y darpariaeth bwyd ysgol.
    - Cytunwyd y byddai’n fuddiol i rieni a disgyblion weld beth sy’n cael ei gynnig.
- **Pwyntiau Gweithredu:**
    - Cysylltu â Sodexo i drefnu bod lluniau o enghreifftiau o’r bwyd ysgol yn cael eu harddangos yn yr ysgol ac ar y wefan/cyfryngau cymdeithasol.

## 7. Annog Presenoldeb yn y Fforwm Rhieni

- **Prif Bwyntiau Trafodaeth:**
    - Trafodwyd sut i gael mwy o rieni i fynychu’r cyfarfodydd.
    - Cytunwyd ar dreialu fformat newydd ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- **Pwyntiau Gweithredu:**
    - **Cynnal tri chyfarfod ar 12/05/2026:** un am 10:00yb, un am 3:30yh, ac un am 6:00yh i siwtio amserlenni gwahanol.
    - Cynnig te/coffi a bisgedi ym mhob sesiwn i greu awyrgylch croesawgar.
    - Hyrwyddo’r dyddiad hwn yn eang drwy Class Charts, cyfryngau cymdeithasol, e-bost a’r cylchlythyr.

---

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 12 Mai 2026 (Tri opsiwn amser).